# Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig

## Y Cylch Gorchwyl

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer yr ymchwiliad:

Adolygu'r gweithdrefnau sydd ar waith mewn perthynas â chraffu ar is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth arall sy'n dod o fewn cylch gwaith y pwyllgor.

Bydd ymchwiliad y pwyllgor yn canolbwyntio'n benodol ar sut y dylai ymdrin â'r meysydd canlynol o'i waith a goblygiadau hynny i arferion gwaith y pwyllgor:

- craffu ar offerynnau statudol ar y seiliau a nodir yn Rheol Sefydlog 15.3:
- ystyriaethau penodol mewn perthynas ag offerynnau statudol sy'n gweithredu cyfarwyddebau Ewropeaidd;
- craffu ar Fesurau Senedd y DU sy'n effeithio Cymru.

### Dylai'r ymchwiliad arwain at argymhellion mewn perthynas â:

- Gwell Rheoleiddio – gwella prosesau ar gyfer paratoi is-ddeddfwriaeth a  deddfwriaeth arall sydd o fewn cylch gwaith y pwyllgor gyda'r nod o wella tryloywder gweithdrefnau a chysylltiad y rheini yr effeithiwyd arnynt.

- Ehangu gwaith craffu - bydd canlyniadau'r ymchwiliad yn darparu sail ar gyfer ymagwedd y pwyllgor tuag at ei gylch gwaith craffu mwy eang, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn craffu'n fwy effeithiol ac amserol ar reoliadau a deddfwriaeth arall o fewn ei gylch gwaith sy'n mynd y tu hwnt i waith craffu technegol.